

Crynodeb Gweithredol



Enwau Bwyd Gwarchodedig yr Undeb Ewropeaidd a'u gwerth cymharol a chynhenid

Dyddiad: Mawrth 2015

Cyflwynwyd i: Susie Abson, Llywodraeth Cymru

Prepared by: Fay Francis, Emma Jones, Cate Barrow ADAS

1 Crynodeb Gweithredol

Cyflwynwyd Cynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig Ewrop (EUPFN) yn Ewrop ym 1993 i warchod cynhyrchion bwyd a diod ar sail ddaearyddol neu ryseitiau. Mae'r Cynllun yn dod o dan Reoliad yr UE Rhif 1151/2012.

O fewn y cynllun, ceir tri dynodiad fel a restrir isod:-



Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) - Rhaid bod pob agwedd ar y cynhyrchu, gan gynnwys cael hyd i'r deunyddiau, yn digwydd yn yr ardal ddaearyddol. Mae'r cynnyrch yn cael ei gynhyrchu, ei brosesu a'i baratoi mewn ardal benodol.



Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) – Gall rhai elfennau o gynhyrchu a/neu gael hyd i'r deunyddiau crai ddigwydd y tu allan i'r ardal ddaearyddol. Gellir cynhyrchu neu brosesu neu baratoi'r cynnyrch mewn ardal benodol.



Gwarant Arbenigedd Traddodiadol (TSG) – Mae'r cynnyrch yn cael ei wneud yn unol â rhyddid neu ddull cynhyrchu traddodiadol ond nid yw'n gysylltiedig ag ardal benodol.

Ceir manylion pellach am y cynlluniau ansawdd ar y wefan ganlynol:

http://ec.europa.eu/agriculture/quality/schemes/index_en.htm

Daw gwinoedd a gwirodydd o dan reoliadau ar wahân sef Rheoliad (CE) rhif 1234/207 a Rheoliad (CE) rhif 110/2008, yn y drefn honno.

Mae PFNau'n cwmpasu amrywiaeth o gynhyrchion. Ar hyn o bryd, ceir 1260 o PFNau cofrestredig ar draws 27 o wahanol ddosbarthiadau cynnyrch gydag oddeutu 200 o gynhyrchion wrthi'n gwneud cais a/neu'n cyhoeddi eu statws.

Ar hyn o bryd, mae gan Gymru 4 PFN cofrestredig sef:

- Cig Oen Cymru PGI
- Cig Eidion Cymru PGI
- Tatws Cynnar Sir Benfro PGI
- Halen Môn PDO

Ceir 18 cynnyrch arall o Gymru sydd mewn gwahanol gyfnodau yn y drefn gwneud cais am PFN gan gynnwys 7 cynnyrch sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod cyflwyno i'r UE. Ar ben hynny, gallai sawl cynnyrch

arall o Gymru gyrraedd meini prawf PFN ac mae posibilrwydd y bydd Wisgi Cymru'n gwneud cais am statws Dynodiad Daearyddol.

Nodau


Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru i edrych ar werth statws PFN i fusnesau a'r economi wledig, gan gyfeirio'n arbennig at Gymru. Nodau penodol yr astudiaeth oedd dangos:

- Budd canfyddedig neu go iawn EUPFN i gynhyrchwyr o ran elw, swyddi a grëir, mynediad i archfarchnadoedd ac yn y blaen.
- A yw statws EUPFN yn hyrwyddo cydweithrediad o fewn y gadwyn gyflenwi
- Y budd i'r diwydiant twristiaeth lleol
- A oes cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o darddiad 'Cymru' fel brand o ganlyniad i gynhyrchion EUPFN
- Y cyfraniad y gall/bydd EUPFN yn ei wneud i Gynllun Gweithredu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am dystiolaeth ategol i ddeall gwerth statws Enw Bwyd Gwarchodedig (PFN), gan gyfeirio'n arbennig at Gymru. Mae ymchwil yn y gorffennol wedi canolbwyntio'n bennaf ar **werth uniongyrchol** statws PFN i fusnesau unigol; fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru'n arbennig o awyddus i estyn yr ymchwil hon, gan edrych ar **werthoedd anuniongyrchol** posibl PFNau i'r economi wledig yng Nghymru.

Methodoleg

Defnyddiodd yr adroddiad hwn gyfuniad o ymchwil bwrdd gwaith ac astudiaethau achos PFN cofrestredig Cymru er mwyn adnabod ac amlygu gwerth uniongyrchol ac anuniongyrchol y statws fel a ddangosir yn y diagram isod. Yna trafodwyd buddion penodol y statws a nodwyd. Thema a dorrai ar draws pob un o 4 astudiaeth achos PFN Cymru oedd gwerth ychwanegol statws PFN fel offeryn marchnata.



Yn bennaf, mae'r adroddiad yn edrych ar werth Enwau Bwyd Gwarchodedig; fodd bynnag, cyfeirir at Ddynodiadau Daearyddol (GI) eraill (gwirodydd a gwinoedd) lle bo'n briodol ac mae enghreifftiau ychwanegol o PFNau o'r DU a'r UE wedi'u darparu er mwyn cyflwyno dadl gytbwys.

(Nid oedd yn bosibl cael data o ran elw cynhyrchion penodol oherwydd sensitifrwydd masnachol data o'r fath.)

Isod, ceir manylion prif fuddion derbyn y statws. Darperir tystiolaeth ategol bellach sy'n sensitif yn fasnachol yng nghorff yr adroddiad.

1. Diffyndollaeth Gyfreithiol rhag camddefnyddio, dynwarediad a thwyll

- Achos llys Cig Eidion Cymru PGI oedd y cyntaf i brofi amddiffyniad cyfreithiol PFN yn llwyddiannus yn y DU.
- Fel PFN, gall Cig Eidion Cymru PGI brofi'i darddiad, dilysrwydd a'r gallu i'w olrhain yn drwyadl. Roedd hyn yn helpu i liniaru effeithiau gostyngiad yng ngwerthiant cig eidion yn dilyn y sgandal cig ceffyl ar draws Ewrop yn 2013 a hefyd i adfer hyder defnyddwyr.

2. Allforion

- Ers i Gig Oen Cymru dderbyn statws PGI yn 2003, mae allforion cig defaid o Gymru wedi tyfu'n gryf gan ddangos cynnydd o 13,000 tonnall a £76.3m yn y farchnad allforio (data CThEM rhwng 2003 a 2013).
- Amcangyfrifodd HCC y gellir priodoli 25% o'r twf cynyddol mewn allforion rhwng 2003 a 2012 yn uniongyrchol i'r brand PGI a gweithgareddau marchnata HCC, sy'n cyfateb i 11,000 tonnall o gig defaid o Gymru, sy'n hafal â £42.5 miliwn o werthiant allforion ychwanegol o 2004-2011.
- Ar ben hynny, dywedodd ymgynghoreion y diwydiant fod y brand PGI a gweithgareddau marchnata HCC yn "gyfraniad o bwys i werthiant allforion" wrth gael mynediad i farchnadoedd allforio newydd a chadw'r rhai presennol.
- O ganlyniad i statws PFN, mae HCC wedi bod yn llwyddiannus wrth gael cyllid ar gyfer mesurau hyrwyddo'r UE i hyrwyddo a marchnata statws PFN hyd at gyfanswm o €8.1 miliwn dros ddau gyfnod ariannu (mae 50% ohono'n dod o gyllid cyfatebol gan HCC).

3. Economeg gymdeithasol

- Mae statws PGI i Datws Cynnar Sir Benfro'n hollbwysig i dwf *Puffin Produce* Cyf. Mae twf y busnes hwn wedi darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r economi wledig leol. Mae cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol wedi cynyddu gan arwain at fwy o weithgarwch economaidd a gwariant yn yr economi wledig leol.
- Wrth i'r busnes dyfu, llwyddwyd i sicrhau arbedion maint gan alluogi cael cyngor arbenigol megis agronomieg a marchnata/cysylltiadau cyhoeddus.
- Gan weithio fel grŵp cynhyrchu PFN, mae *Puffin Produce* Cyf wedi galluogi cydweithrediad ymysg cynhyrchwyr yn Sir Benfro gan arwain at uwchsgilio, gwell cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar hyd y gadwyn gyflenwi.
- Mae sicrhau statws PGI i Datws Cynnar Sir Benfro wedi galluogi'r grŵp cynhyrchwyr i gael ei gysylltu â chynnyrch 'premiwm'. Mae llwyddiant Datws Cynnar Sir Benfro PGI yn y farchnad wedi 'cyfrannu i hyfywedd ffermydd yn y sir' – Huw Thomas, Cyfarwyddwr Rheolwr *Puffin Produce* Cyf.
- Yn ôl astudiaeth 2008 Ysgol Economeg Llundain, mae cynhyrchwyr PFN mewn ardaloedd mwy anghysbell a llai ffafriol yn aml yn gweld buddion helaethach yn sgil PFNau. Mae 78% o'r holl arwynebedd amaethyddol yng Nghymru'n cael ei gategoreiddio fel Ardal Lai Ffaffriol (ALFf).

4. Twristiaeth Fwyd

- Mae statws PFN wedi bod yn ddylanwad yn y buddsoddiad mewn twristiaeth fwyd a wnaethpwyd gan Halen Môn Cyf.
- Symudodd i Halen Môn Cyf i safle newydd gan agor atyniad newydd i ymwelwyr ym mis Chwefror 2015. Creodd y safle newydd 5 swydd ychwanegol gyfwerth ag amser llawn. Ar ben hynny, amcangyfrifir y bydd niferoedd ymwelwyr yn cynyddu 300% yn ystod y 5 mlynedd nesaf a rhagwelir y bydd refeniw o werthiant yn y siop ar y safle'n dyblu. Cynhyrchir refeniw ychwanegol gan deithiau o gwmpas y safle.

5. Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru

Nodir y cyfraniadau penodol y gall PFNau Cymru eu gwneud i amcanion Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru yn y tabl isod. Bydd eu cyfraniad posibl yn cynyddu wrth i nifer y cynhyrchion PFN Cymreig gynyddu.

Tabl 1 Sut gall PFNau Cymru gyfrannu i Gynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru Llywodraeth Cymru

Targed	Amcan Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru Llywodraeth Cymru	Sut gall cynhyrchion PFN Cymru gyfrannu i'r amcanion
Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru	Cryfhau hunaniaeth Gymreig Bwyd a Diod Cymru	Mae 4 cynnyrch PFN presennol Cymru'n eiconig ac yn uchel eu proffil. Ceir cyfleoedd i ddefnyddio PFNau i gryfhau hunaniaeth Gymreig a hybu gwerthoedd cadarnhaol tarddiad Cymreig.
Twristiaeth Fwyd	Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 yn adnabod bwyd lleol o safon fel rhan o'r cynnyrch sydd ar gynnig	Mae PFNau yn addas iawn ar gyfer twristiaeth fwyd gan mai cynhyrchion o safon sydd o darddiad Cymreig ydynt sy'n creu ac yn gwella gastro-dwristiaeth yn lleol. Gellir targedu twristiaid sydd â diddordeb mewn treftadaeth fwyd ac arferion traddodiadol cenedlaethol a rhanbarthol e.e. Halen Môn PDO.
Diogelwch Bwyd	Cynhyrchu bwyd diogel a chynaliadwy uchel ei safon er mwyn cynnal ymddiriedaeth defnyddwyr	Mae gan PFNau amddiffyniad cyfreithiol rhag dynwarediad a thwyll ac mae eu gweithdrefn archwilio'n galluogi eu holrhain yn drwyadl. Achos llys Cig Eidion Cymru PGI oedd y cyntaf i brofi amddiffyniad cyfreithiol PFN yn llwyddiannus yn y DU.
Cyflogaeth	Sicrhau swyddi a thwf yn y sector bwyd a diod	Gall PFNau wneud cyfraniad sylweddol i dwf busnesau yn ogystal â chynyddu a chadw cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig fel a welir gyda Thatws Cynnar Sir Benfro PGI.

Casgliadau o'r astudiaeth

Mae pedwar cynnyrch PFN Cymru wedi sicrhau gwerth sylweddol yn sgil derbyn statws PFN. Dengys y pedwar achos astudiaeth yn yr adroddiad hwn fod eu busnesau unigol wedi elwa'n uniongyrchol ar

ddefnyddio statws PFN fel offeryn marchnata ar gyfer marchnadoedd cartref a bu o gymorth arbennig wrth fynd at a chadw marchnadoedd allforio e.e. Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI. Ar ben hynny, mae'r astudiaeth hon wedi dangos y gall statws PFN, sy'n hanfodol i dwf busnes megis *Puffin Produce* Cyf a Thatws Cynnar Sir Benfro PGI, fod o fudd i'r economi wledig yng Nghymru, yn economaidd drwy greu swyddi ac yn gymdeithasol drwy fwy o gydweithrediad, uwchsgilio ac arbenigedd ymysg cynhyrchwyr. Mae'r adroddiad yn nodi y gallai PFNau wneud cyfraniad pwysig i dwristiaeth fwyd Cymru fel a ddangosir gan atyniad newydd Halen Môn i ymwelwyr a bod llawer o'r cynhyrchion Cymreig sydd yng nghyfnodau ola'r broses gwneud cais am PFN gan gynnwys Ham Caerfyrddin, Bara Lawr Cymru, Cregyn Gleision Conwy, Eog Gorllewin Cymru a ddelir o Gwrwgl, Sewin Gorllewin Cymru a ddelir o Gwrwgl a Chaws Caerffili Traddodiadol Cymru, yn gynhyrchion o safon sy'n ymgorffori treftadaeth diwylliant a thraddodiad bwyd Cymru. Dyma nodweddion a fyddai'n eu cynnig eu hunain yn naturiol i Dwristiaeth Fwyd.

Yn olaf, mae'r adroddiad yn amlygu sut y gall PFNau Cymru, oherwydd eu bod yn ymgorffori ansawdd, y gallu i olrhain a tharddiad, gyfrannu i sawl un o amcanion Llywodraeth Cymru yng Nghynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru.

Argymhellion

Deillia'r argymhellion isod o gyfweiliadau astudiaethau achos PFN Cymru (a wnaethpwyd gan ADAS) wedi'u hategu gan ymchwil bwrdd gwaith helaeth.

- Mae gwerthoedd uniongyrchol ac anuniongyrchol posibl statws PFN i fusnesau unigol ac economi Cymru wedi'u dangos yn eglur yn yr adroddiad hwn. Felly, argymhellir parhau i adnabod cynhyrchion eraill o Gymru sy'n cyrraedd meini prawf PFN a chefnogi cynhyrchwyr Cymru drwy'r broses gwneud cais am PFN.
- Neilltuo amser ac adnoddau i gynhyrchwyr yn y cyfnod cychwynnol ar ôl derbyn statws PFN i ddarparu'r ddealltwriaeth o oblygiadau statws PFN i gynhyrchwyr PFN a phob rhanddeiliad arall sydd â diddordeb ar hyd eu cadwyn gyflenwi. Gofynnwyd am y ddarpariaeth hon gan gynhyrchwyr PFN.
- Gan nad yw sicrhau statws PFN yn arwain yn awtomatig at lwyddiant marchnata, argymhellir bod pob cynhyrchydd PFN o Gymru yn y dyfodol yn cyplysu cofrestru PFN â'i ymgyrch hyrwyddo a marchnata gynhwysfawr ei hun i wireddu'r potensial marchnata y gall PFN ei ddarparu.
- Pe bai Cymdeithas Cynhyrchwyr PFN Cymru'n cael ei ffurfio fel is-grŵp i Gymdeithas PFN y DU, byddai hyn yn helpu cydweithio rhwng cynhyrchwyr PFN o Gymru yn awr ac yn y dyfodol ac yn helpu cynhyrchwyr PFN newydd i gymryd rhan mewn ymgyrch farchnata hirdymor i PFNau Gymru gan gynnwys edrych ar y posibilrwydd o fynd at gyllid mesurau hyrwyddo'r UE.
- Argymhellir ymgyrch farchnata hirdymor i PFNau Cymru i greu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith defnyddwyr/cwsmeriaid o PFNau Cymru a Chynllun Ansawdd EUPFN. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr, disgwylir y bydd mwy o alw am gynhyrchion a dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar elw a chyfeintiau.
- Er mwyn deall canfyddiadau defnyddwyr ynghylch EUPFN, argymhellir bod astudiaeth bellach yn cael ei chynnal i adnabod y priodweddau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau Awydd Prynu defnyddwyr yn y DU a thramor.
- Dylid ymchwilio i'r cyfleoedd i wella'r ymwybyddiaeth o PFNau a'u logos er mwyn cau'r bylchau yng ngalwadau defnyddwyr am ansawdd, tarddiad, dilysrwydd a'r gallu i olrhain.
- Sicrhau cyfraniad y cwmnïau sydd â statws PFN Cymreig wrth gyflwyno'r "Cydd-gynllun Gweithredu Twristiaeth Fwyd" sy'n cael ei ddatblygu gan y diwydiant a'r llywodraeth.
- Llundio cynllun gweithredu i elwa ar y cyfle sydd ar gael i ddefnyddio PFNau Cymru fel llwyfan i gryfhau hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru.